

Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

Clerc / Clerk Gwenda Owen gwenda.owen1@gmail.com
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)
<http://www.valleycommunitycouncil.com>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting
7.00 y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 17.07.13

1. Croeso / Welcome.

- 2. Presennol / Present :** Cyng/Counc. C Torr, M Swaine Williams, H Wilson, S Roberts (Cadeirydd/Chair), N Tuck, W Rogerson MBE, G Browne MBE, C Furlong, K Taylor
Cyng Sir/County Coun G O Jones, R A Dew

Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng /Coun D Walters

3. Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest

8.1.1. Cyng K Taylor

4. Cyflwyniad a thrafodaeth gyda'r heddlu/Presentation and discussion with the police.

Adroddwyd fod gan yr heddlu gynllun patrolio ar gyfer y PCSO a bod oddeutu 30 yn gwarchod yr Ynys. Dim problemau yn y pentref heblaw am ychydig o anghydfodau cymdogaeth. Trafodwyd problemau parcio yn y pentref a cytunwyd i ddod a nhw i sylw'r Adran Briffyrdd. Mynegwyd pryder ynglyn a chyflymdre rhai o fysus yr ysgol yn mynd trwy'r pentref. PCSO i ddod a hyn i sylw'r cwmni bysus. Gofynnir am fwy o bresenoldeb gan y PCSO dros yr haf, yn enwedig o gwmpas yr ysgol, gan, yn hanesyddol, fod y risg o ymddygiad gwrth-cymdeithasol yn uwch yn ystod y gwyliau. Gofynnir pa bryd fyddai'r heddlu yn cychwyn syrjeri yn y pentref. PCSO i fwydo'n ol. /The police reported that there was a police patrol plan for PCSO's and that there were around 30 patrolling the Island. No problems reported in the village with the exception of a few neighbourhood disputes. Problems with parking in the village were discussed and it was agreed that this would be brought to the attention of the Highways Department. Concerns expressed regarding the speed of some school buses travelling through the village. PCSO to bring this to the attention of the bus company. A higher PCSO presence was requested over the Summer months, particularly around the school, when historically there had been an increased risk of anti-social behaviour. Members enquired as to when the police would be commencing the surgery in the village.

5 Cofnodion cyfarfod 19.06.13/ Minutes of the meeting 19.06.13

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. / *The minutes were accepted as correct.*
Cynnig/Eilio HW/WR Prop/Sec

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes 19.06.13

6.1 Mynwent Llanyghenedl Cemetery

Adroddodd Cyng WR byddai ymateb yn dod oddiwrth Cyngor Plwyfol yr Eglwys yng Nghymru./Counc. W R reported that a response would be received from the Parochial church Council of the Church of Wales.

6.2 Cais i gael copi papur o gynlluniau di-gomisiynnu Wylfa a Datblygiad Land and Lakes/Request for a paper copi of plans to decommission Wylfa and the Land and Lakes Development.

Adroddwyd nad oedd cynlluniau i lawr-lwytho cynlluniau ar safle we y Cyngor Sir ar hyn o bryd ac nad oedd yn bosib gyrru copi papur oherwydd maint rhai o'r cynlluniau. Cafwyd trafodaeth ynglyn a datblygiad Penrhos ond cytunnwyd nad oedd yn briodol i ysgrifennu at y Cyngor Sir ar hyn o bryd gan fod aelodau'r Cyngor wedi gwrthwynebu'r cais yn barod.

Trafodwyd cael projector a sgrin a penderfynnwyd ei nodi ar gyfer trafodaethau cyllid blwyddyn 2014/15./It was reported that there were no plans to download plans onto the County Council website at the moment and that it wasn't possible to send paper copies due to the size of some plans. There was some discussion around the Penrhos development but it was agreed that it was not appropriate to write to the 'County Council at the moment as members of the Council had already objected to the application.

The possibility of obtaining a screen and projector was discussed and it was agreed that this be noted for inclusion in discussions on the 2014/15 budget.

6.3 Diweddariad yn dilyn Fforwm gyswilt Cynghorau Tref a Chymuned Siambr y Cyngor Llangedfni, 4.7.13. (Cyng D Walters a W Rogerson wedi cytuno i fynychu)/Update following Town and community Council Liaison Forum 4.7.13. (Councillors D Walters & W Rogerson agreed to attend)

Dim wedi ei dderbyn/Nil received.

6.4 Giat Mochyn/Kissing Gate

Llythyr wedi ei dderbyn oddiwrdd y Swyddog Hawl Tramwy yn cadarnhau y byddent yn trwsio'r clo. Angen tynnu ei sylw at y ffaith fod y giat yn cau arni hyn pan mae rhywyn yn ceisio mynd trwyddi./Letter received from the Public Rights of Way Officer confirming that the lock was to be repaired. Need to draw their attention to the fact that the gate closes on itself as a person tries to go through it. Cynnig/Eil CT/MSW Prop/Sec.

7. Materion Plwyfol/Parochial Matters

1. Coed ar yr A5 o flaen y golau traffig/Trees on the A5 before the traffic lights. (DW)

Clerc i ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd i ofyn os fyddai modd torri'r coed./Clerk to write to the Highways Department to request that the trees be cut down.

2. Ceir yn cael ei hysbysu ar werth dros y ffordd i Gorsaf yr Heddlu/Cars advertised for sale opposite the Police Station. (DW)

Mynnegwyd pryder ynglyn a'r nifer o geir oedd yn cael eu cynnig ar werth ar y ffordd ger y Shop Canws. Cytunnwyd i dynnu hyn i sylw'r Adran Briffyrdd ac Adran Iechyd yr Amgylchedd./Concern expressed about the number of cars being offered for sale by the

canoe shop. Agreed to draw this to the attention of Highways Department and Environmental Health Department. Cynnig/Eil GB/MSE Prop/Sec.

3. Dug out a gosod bordiau hysbysu yn Mharc Mwd/Dug out and erection of advertising board in Parc Mwd. (SR)

Dug Out – ‘Roedd aelodau’r clwb pel-droed hyn wedi gosod dug outs ar y maes pel-droed. Bydd rhain yn angenrheidiol os ydi’r tim yn chwarae yn Nghyngair Mon. Mynegwyd pryder ynglyn a phroblemau gyda ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y dug outs mewn clybiau eraill. Cytunnwyd i ysgrifennu at Gadeirydd y Tim pel-droed yn nodi y byddent yn gyfrifol am edrych ar ol y dugouts. Pe byddai problemau yn codi’n rheolaidd, byddai rhaid ceisio sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod, a cytunnwyd i fonitro’r sefyllfa. /The Senior football club had placed dug outs on the football pitch. These were essential if the team is to play in the Anglesey League. Concern was expressed that other clubs had experienced anti-social behaviour in the dugouts. It was agreed that a letter be sent to the Chair of the football team noting that they would be responsible for looking after the dugouts. Should problems arise regularly, there would be a need for them to ensure that they are made secure and it was agreed that the situation would be monitored. Cynnig/Eil MSW/GB Prop/Sec.

Hysbysu: Cytunnwyd i beidio a chefnogi cais i hysbysu ar hyn o bryd. Cynnig i’r Tim Peldroed gael cynllun busnes, cyngor gan yr Adran Gynllunio a lechyd a Diogelwch cyn ystyried ymhellach./Agreed not to support the request to put up advertising boards at the moment. To propose that the Football Team prepare a business plan, obtain advise from the Planning Department and Health and Safety Executive before this could be considered further. Cynnig/Eil MSW/GB Prop/Sec.

8 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning

1. Ceisiadau/Applications

- 1. Cais Rhif/App No 49C128D Cais llawn ar gyfer creu ardal chwarae naturiol yn/Full application for the construction of a natural play area at Parc Mwd, Valley.**

Llythyr hefyd wedi ei dderbyn oddiwrth Geraint Williams/Letter also received from Geraint Williams.

Dim gwrthwynebiad ond angen tynnu sylw i eitem yn llythyr MacVenture. Nid oedd cytundeb mewn lle i’r Cyngor Cymuned codi ffens o gwmpas y pwll. Amod o fewn y les oedd fod Grwp Cymunedol y Fali yn gyfrifol am gwblhau asesiad risg o’r ardal o gwmpas y pwll a gweithredu ar unrhyw argymhelliad. Llythyr i gael ei yrru i’r Adran Gynllunio, a chopi i Grwp Cymunedol y Fali. /No objection but need to draw attention to MacVenutre’s letter. It had not been agreed that the Community Council would erect a fence around the pond. A condition within the lease was that the Valley Community group were responsible for completing a risk assessment of the area around the pond and act on any recommendations. Letter to be sent to the Planning Department with a copy to the Valley Community Group. Cynnig/Eil BR/GB Prop/Sec

Penderfyniadau Cynllunio/Planning Decisions

1. **Cais rhif/App No. 49C312 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr estyniad presennol ynghyd a chodi estyniad dau lawr yn/Full application for the demolition of the existing extension together with the erection of a two storey extension at Hen Valley, Valley, LL65 3AG**

Wedi ei ganiatau/Approved.

2. **CaisRhif/App no. 49C311 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr estyniad presennol ynghyd ag addasu ac ehangu ynghyd a dymchwel y modurdy presennol a chodi modurdy newydd yn/Full application for the demolition of the existing extension together with alternations and extensions and the demolition of the existing garage and the erection of a new garage at Bryn Derwyn, Gorad Road, Valley, LL65 3BS.**

Wedi ei ganiatau/Approved.

9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence.

1. **Fforwm Mynediad Lleol Ynys Mon /Anglesey Local Access Forum**

Gohebiaeth i gael ei yrru i Cyng K Taylor/Correspondence to be sent to Coun. K Taylor.

10. Gohebiaeth Unllais Cymru

1. **Bil Datblygu Cynaliadwy/Sustainable Development Bill**

<http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopmejnt/sdwhitepaper>

<http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopmejnt/sdwhitepaper/?lang=cy>

Nodwyd/Noted.

2. **Cynghrair Cymunedau Cymraeg/Welsh Language Communities Alliance**

Gwahoddiad/Invitation. Mwy o wybodaeth ar/More information at

<http://cymunedau.org>.

Nodwyd./Noted.

3. **Rhaglen Hyfforddiant Medi i Ragfyr 2013/Training Programme September to December 2013.**

Rhaglen hyfforddi Cod Ymddygiad y Cyngor Sir i'w gylchredeg i Cyng Furlong a Taylor./CountyCouncil's training programme on the Code of conduct to be circulated to Coun. Furlong and Taylor.

4. **Cylchlythyr Cyllid Allanol Gorffennaf/Awst 2013/July/August External Funding Newsletter.**

Cylchredeg i Cyng Taylor/Circulate to Coun. Taylor.

5. Cyfle Penodiadau Cyhoeddus Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru/Public Appointments Opportunity – Chair and Non Executive Members, Wales Audit Office. Nodwyd/Noted.

11. Materion Ariannol / Financial Matters

**Manylion Cyfrifon / Details of Accounts – Bank Balances
26/06/13**

Treasurer - £8442.14 Business Manager – £5576.38, Ynys Wen - £8360.37, Capital - £2065.84
(Treasurer account - un-presented cheques £4221.83 actual funds available £ 4220.31)

Derbynnwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. / *Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations.* (Cynnig/Eilio CT/BR Prop/Sec.)

12. Taliadau i'w gwneud Gorffennaf/ Payments to be made July

Cyflog y clerc / Clerk' salary - Mehefin	£258.52
Carys Roberts Cyfieuthu Mai	£109.20
Mrs G Owen (Post/Stamps)	£10.50
G W Morris	£384.00
Huws Gray	£995.65

Taliadau wedi ei cymeradwyo yn unol a phwynt 5.3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali./ *Payments approved in accordance with Section 5.3 of the Valley Community Council Financial Regulations.* (Cynnig/Eilio CT/BR Prop/Sec.)

13 Adroddiad Flynyddol/Annual Return

Derbynniwyd yr adroddiad flynyddol a nodwyd mae'r unrhyw sylw oedd nad oedd enw'r Cyngor ar Adran 3./The Annual Return was accepted and it was noted that the only comment made was that the Council's name was not at the top of Section 3. Cynnig/Eil GB/MSW Prop/Sec.

14. Y Cynulliad / The Assembly

15. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence

- 1. Llythyr oddiwrth Cyngor ar Bopeth Ynys Mon/Letter from Anglesey Citizens Advice Bureau Nodwyd/Noted**

16. Materion Brys

Llwybr 8/Footpath 8.

'Roedd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Swyddog Hawl Tramwy'r Cyngor Sir yn cadarnhau nad oes gan Gyngorau Cymunedd dyletswydd statudol ynglyn a chael gwared ar rwystrau ar lwybrau cyhoeddus felly nid oes rhaid i'r Cyngor weithredu ar hyn, dim ond cyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir. Fel yr awdurdod priffyrdd lleol mae'r Cyngor Sir wedi penderfynnu nad

ydynt am weithredu i symud rhwystrau ar Lwybr 8 tra mae proses y Map Swyddogol yn mynd ymlaen.

Fe all unrhyw aelod o'r cyhoedd gyflwyno rhybydd ffurfiol ar y Cyngor Sir i weithredu i symud rhwystrau ac, os nad ydynt yn gweithredu, gwneud cwyn i'r Llys Ynadon. Pe byddai rhybydd ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir, byddai'n rhaid iddynt ystyried y mater ymhellach ond mae'n debyg mae penderfynnu amddiffyn yr achos yn y Llys Ynadon fyddai'r Cyngor Sir ar sail bod amheuaeth am fodolaeth yr hawl tramwy a gan fod proses Map Swyddogol ar y gweill.

Cytunnwyd ysgrifennu at y tir-feddiannwr yn gofyn iddo gysidro symud y rhywstrau hyd nes oedd canlyniad yr Ymholiad Cyhoeddus ar gael.

A letter had been received from the Public Rights of Way Officer of the County Council confirming that there is no statutory duty on Community Councils in relation to removing obstacles on public footpaths and therefore there was no need for the Council to act on this, other than refer the matter to the County Council. As the Local Highways Authority, the County Council had decided that they would not act to move the obstacles on Footpath 8 whilst the Official Map process was on-going.

Any member of the public could present a formal notice to the County Council to act to remove the obstacles and, should they not act, present a complaint to the Magistrates Court. Should a formal notice be presented to the County Council, they would have to give the matter further consideration but it is likely that they would decide to defend the case in the Magistrates Court on the basis that there is some doubt as to the existence of the footpath and that the Official Map Process is under way.

It was agreed to write to the land-owner requesting that he consider removing the obstacles until the outcome of the Public Enquiry was available.

Cynnig/Eil MSW/GB Prop/Sec.

16. Calendr/Calendar Awdit y fynwent/Cemetery Audit (BR)
17. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting** 18.09.13 7.00 y.h. /p.m.